



# DEFNYDDIO'R SAFONAU

Dysgu Proffesiynol yn Ysgol Eirias /Northop Hall



# Cyd-destun

## Ysgol Eirias:

- Ysgol uwchradd fawr (100 o athrawon; 15 cymhorthydd dysgu);
- Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol;
- Treialu safonau newydd mewn ystod o weithgareddau ers 2 flynedd.

## Ysgol Gynradd Northop Hall:

- Ysgol gynradd ganolig ei maint (9 o athrawon; 8 cymhorthydd dysgu);
- Ddim yn rhan o brosiectau Arloesi;
- Dim ymwneud blaenorol yn y safonau cyn eu cyhoeddi.

# Defnyddio'r safonau mewn CauGY a'u rôl mewn Rheoli Perfformiad

- Mae NH wedi defnyddio safonau yn y CGY i sicrhau bod llinynnau'r CGY yn rhoi sylw i'r safonau newydd ar gyfer staff (yn ogystal â'r prif ddiben, sef cynnydd dysgwyr); cyn Rheoli Perfformiad, mae staff wedi arfarnu eu hyder yn y safonau drwy ddefnyddio grid a ddatblygwyd o enghraifft Ysgol Gwynedd.
- Mae YE wedi defnyddio'r safonau yn y CGY ac fel arweiniad ar gyfer gosod targedau Rheoli Perfformiad er mwyn sicrhau ymgysylltiad a gwella datblygiad

# Arfarnu hyder (NH)

- Ymglyfarwyddo â'r safonau ac adnabod meysydd i'w datblygu
- Nid yw hyn yn rhan ffurfiol o'n prosesau RhP, ond mae'n creu cyfle am drafodaeth ac yn llywio DP ar gyfer unigolion a'r ysgol.

**Professional Standards for Teaching and Leadership. Self Evaluation for personal professional development**  
**Northop Hall CP School**

Move the blue web (Instruction on next slide) to where you currently feel confident on the continuum in each of the seven areas of the standards. The higher the number the more confident/developed. Look at the statements in the PSTL from induction standard (0/1) to sustained highly-effective practice (5) to guide you. Use the green web for review

**Area/Areas of focus:**

- Use bullets

**Review - Key developments this year:**

- Use bullets

Name	
Date	
Review Date	

# Cysylltiadau â Rheoli Perfformiad

- Adnabod agweddau ar y safonau yn ein RhP

Cofnod o amcanion rheoli perfformiad ar gyfer 2018-19

Enw:

Teitl y swydd: athro Blwyddyn 6 a Phennaeth Cynorthwyol

Cyfnod yr amcanion : Medi 2018 hyd Gorffennaf 2019

Prif amcanion	Amcan 1: Targed ysgol gyfan	Amcan 2: Targed disgybl	Amcan 3: Targed personol
	<p>Er mwyn cael effaith ar y cynnydd a wna disgyblion mewn mathemateg, datblygu ac ymestyn ymhellach y defnydd o gynrychioliadau gweledol/ymarferol i addysgu a dangos dysgu.</p> <p><i>(Defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu – 12 Egwyddor Addysgeg Donaldson)</i></p> <p><i>(Gwneud cysylltiadau – 12 Donaldson)</i></p>	<p>Dewis pedwar bachgen sy'n 'cyflawni'n uchel' a thracio eu datblygiad er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd disgwylidig mewn rhif</p> <p>Xxxx</p> <p>Xxxx</p> <p>Xxxx</p> <p>xxxx</p>	<p>Ail-lunio cenhadaeth a gweledigaeth yr ysgol i fod yn unol â'r cwricwlwm newydd a datblygu ein dealltwriaeth o'r pedwar diben a'r cynllunio ar eu cyfer</p>
<p><b>SPAA</b> (arweiniad yn unig, nid RhP ffurfiol)</p>	<p>Addysgeg - Hyrwyddo Dysgu</p> <p>Arloesi - datblygu technegau newydd</p>	<p>Addysgeg - Hyrwyddo Dysgu - Dilyniant mewn dysgu</p>	<p>Addysgeg - Hyrwyddo Dysgu - Sicrhau'r pedwar diben i ddysgwyr</p> <p>Arweinyddiaeth - Polisi ar waith - Sicrhau'r pedwar diben i ddysgwyr</p>
Beth fydd angen wneud i gyflawni'r targed?			
Meini Prawf Llwyddiant		•	

# Yn rhan o'n Cynllun Gwella Ysgol

## Cynllun Gwella Ysgol 2018-19

**Egwyddorion cyffredinol – "Dim rhagor o fwydo â llwy!"**

Er mwyn bod yn gydnaws â'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu, dyma egwyddorion y cynllun gwella ysgol newydd:

- Mae pob athro yn cymryd cyfrifoldeb am ddehongli'r cynllun a gweithio tuag at y prif amcanion o fewn eu dosbarth , a'r tu hwnt pa bryd bynnag y mae hyn yn bosib ([Arweinyddiaeth – Arfer cyfrifoldeb corfforaethol](#))
- Bydd gan bob athro berchenogaeth ar y cynllun ac yn rhagweithiol tuag at gyflawni'r amcanion ([Arweinyddiaeth – Cymryd cyfrifoldeb personol](#))
- Bydd pob athro dosbarth yn cymryd peth cyfrifoldeb am arfarnu effaith eu gwaith yn eu dosbarth a'r tu hwnt ([Arweinyddiaeth – Cymryd cyfrifoldeb personol](#))
- Bydd pob athro yn meddwl am rôl staff, disgyblion a rhieni wrth weithio tuag at fodloni amcanion ([Cydwethredu – Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol](#) [Addysgeg – Mireinio Addysgu – Cynnwys partneriaid mewn dysgu](#))
- Bydd pob athro yn cymryd cyfrifoldeb am arwain y staff cymorth a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn eu dosbarthiadau ([Arweinyddiaeth – Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni](#))
- Bydd pob athro dosbarth yn ystyried yr ysgol fel cymuned ddysgu, ac yn cymryd cyfleoedd i gefnogi a dysgu oddi wrth y naill a'r llall ([Cydwethredu – Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol](#))
- Bydd pob athro yn cymryd cyfrifoldeb i chwilio am gyfleoedd i weithio gydag ysgolion eraill ([Dysgu Proffesiynol - Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol](#))

**Pwyntiau eraill i'w cofio**

- Manteisio ar gyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu ([Addysgeg – Dylanwadu ar Ddysgu - Dysgwyr yn arwain dysgu](#))
- Manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu meddylfryd o dwf ([Addysgeg – Dylanwadu ar Ddysgu – Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr](#))
- Manteisio ar gyfleoedd i gynnal prosiectau ymchwil bychain (seiliedig ar dystiolaeth/agos at arfer) ([Dysgu proffesiynol – darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil](#))
- Ceisio cymryd risg wrth ddatblygu dysgu disgyblion ([Addysgeg – Arloesi – datblygu technegau newydd](#))

# Safon Dysgu Proffesiynol (YE)


- Mae 4 disgrifydd o fewn y Safon Dysgu Proffesiynol :

## Dysgu proffesiynol

Mae'r athro yn cynyddu ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth yn gyson a gall ddangos sut mae myfyrion a bod yn barod i gael ei herio a'i gefnogi yn gallu cyfrannu at ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu addysgeg yn raddol.

Cliciwch ar benawdau'r elfennau i ddarllen y disgrifyddion.

- Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil
- Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol
- Dysgu proffesiynol parhaus
- Sgiliau Cymraeg



Y PUM SAFON

ARWEINYDDIAETH FFURFIOL

Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

ADDYSGU

# Gwneud synnwyr o'r llinynnau...

Gall fod yn anodd rhoi sylw i'r 2 llyn cyntaf mewn ysgol:

- Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil
- Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol
  
- Dyma'r disgrifyddion:



## Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil

### Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:

Ceir ymgysylltu strwythuredig mewn cymuned ymchwil weithredu a thystiolaeth o arfer sy'n cael ei llywio gan waith darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol.

### Disgrifydd ymsefydlu:

Mae'r athro'n gwneud penderfyniadau addysgeg rhesymegol yn seiliedig ar waith darllen a chanfyddiadau ymchwil perthnasol.

### Disgrifydd SAC:

Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.

PDP



## Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol

### Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:

Mae'r athro'n cymryd rôl weithredol yn y gymuned addysg ehangach gyda chyfraniadau at gyfnodolion, cynadleddau neu gymunedau dysgu.

### Disgrifydd ymsefydlu:

Mae'r athro yn gwneud ymdrech i gael budd o rwydwaith neu gymuned broffesiynol ranbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol, sy'n canolbwyntio ar bwnc, proses neu gyfnod oedran priodol.

### Disgrifydd SAC:

Mae'r athro, ar sail gwybodaeth, yn deall cyfraniad gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil gweithredol ar raddfa fechan at ddatblygiad arferion.




PDP



# Grwpiau Ymchwil Gweithredol

- Er mwyn ceisio cefnogi'r holl staff wrth fynd i'r afael â'r safonau hyn, mae'r ysgol wedi treialu Grwpiau Ymchwil Gweithredol.
- Roedd hyn yn golygu bod staff yn gweithio mewn grwpiau sy'n gysylltiedig â meysydd addysgeg (o Dyfodol Llwyddiannus Donaldson) ac yn treulio amser gyda'i gilydd yn ymchwilio maes o ddiddordeb a'i roi ar waith. Rhannwyd yr Ymchwil Gweithredol mewn amryfal ffyrdd ar ddiwedd y flwyddyn (cyflwyniadau mewn hyfforddiant staff, grwpiau bach yn rhannu, cyfarfodydd tîm cyfadran, astudiaethau achos ac ati).
- Er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod sut i gynnal Ymchwil Gweithredol, daeth cynrychiolydd o Brifysgol Bangor i'r ysgol i gyflwyno'r cysyniadau a'r strategaethau. Nid oes rhaid i'r Ymchwil Gweithredol fod ar raddfa fawr : gall amrywio o weithio'n effeithiol gyda myfyriwr ag ASD, i weithredu strategaethau AagD penodol mewn grwpiau o wahanol allu ym Mlwyddyn 9.

# Grwpiau Ymchwil Gweithredol



# Enghreifftiau o Brosiectau Ymchwil Gweithredol:

Datblygu strategaethau cwestiynu gyda Blwyddyn 10 i ddatblygu sgiliau llafaredd;

Defnyddio asesu cymheiriaid effeithiol gyda Blwyddyn 7 mewn prosiect sgiliau;

Ymchwilio strategaethau i gefnogi myfyriwr X ag ASD mewn Addysg Gorfforol;

Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogaeth yn yr ysgol isaf drwy systemau mentora cymheiriaid;

Cefnogi athrawon sy'n hyfforddi gyda iechyd meddwl;

Ymchwilio effaith ymyrraeth llythrennedd mewn pynciau heblaw Saesneg.


# Datblygu Grwpiau Ymchwil Gweithredol

- Yn ystod yr ail flwyddyn o'u gweithredu, mae Grwpiau Ymchwil Gweithredol yn llawer mwy personol : mae staff yn cynnig eu rhedeg ac nid oes unrhyw gyfyngu ar destun/pwnc. O ganlyniad, mae llawer mwy o ddewis a grwpiau llai gyda mwy o ffocws.
- Bodlonwyd disgrifyddion safonau eraill, gan gynnwys:
- ***Cydweithredu – Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol:***
- Mae'r athro yn mynd ati i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd cydweithredol i staff mewn agweddau cyffredin ar drefnu dysgu ac mewn dulliau arloesol.
- ***Arloesi – Cynnig arbenigedd:***
- Defnyddir arbenigedd a phrofiad drwy gyfrannu sgiliau proffesiynol i helpu cydweithwyr eraill i fynd i'r afael â heriau newydd.
- ***Arweinyddiaeth – Cymryd cyfrifoldeb personol:***
- Mae cyfrifoldeb proffesiynol personol yn cynnwys datblygu arferion effeithiol iawn a pharhaus ar draws y safonau proffesiynol.


# Bodloni'r safonau

- Mae'r mathau hyn o weithgareddau – boed ysgol gyfan neu annibynnol - yn hwyluso datblygu'r safonau.
- Mae ystod yr ail flwyddyn ac ymgysylltiad staff yn dystiolaeth o lwyddiant y peilot.

# Grwpiau Ymchwil Gweithredol







# Ble ydych chi?

- Enghraifft yw hyn o ysgol uwchradd fawr sydd wedi bod yn treialu'r safonau am 2 flynedd ac ysgol gynradd ganolig ei maint na fu'n rhan o'r broses.
- Ble ydych chi ar y daith?
- Beth ydych chi wedi wneud hyd yma?
- Beth fyddai'r cam realistig nesaf?
- Sut fyddwch chi'n gweithredu hyn?